**CYNHYRCHYDD –Parhaol**

**Theatr Clwyd**

Disgrifiad Swydd

**Teulu:** Creu Theatr

**Yn adrodd i:** Cyfarwyddwr Cynhyrchu

**Pwrpas y Swydd**

Bydd y Cynhyrchydd yn rhan o'r teulu Creu Theatr ac mae'n un o gynhyrchwyr llinell cynyrchiadau Theatr Clwyd gartref ac ar daith. Bydd yn defnyddio gwybodaeth arbenigol sylweddol am gynhyrchu theatr, a dull creadigol o wneud hynny, i gefnogi'r Cyfarwyddwr Cynhyrchu i Gyflwyno'r gwaith sydd wedi'i raglennu ar draws yr adeilad a thu hwnt.

**Cyfrifoldebau allweddol**

**Cyffredinol**

- Cyfrannu at y strategaeth a'r cyfeiriad cyffredinol drwy wneud argymhellion i'r Cyfarwyddwr Cynhyrchu ar gynlluniau strategol, blaenoriaethau ac atebion arloesol.
- Bod yn atebol am reoli cyllideb o fewn y Tîm.
- Sicrhau bod y Tîm Cynhyrchu'n gwneud cyfraniad sylweddol at lwyddiant cyffredinol Theatr Clwyd ac at fyd y celfyddydau ledled y DU.
- Annog cymryd risgiau, gwaith caled a meddwl yn greadigol a hyrwyddo diwylliant cadarnhaol a chefnogol.
- Arwain drwy esiampl, gan gyfathrebu, dylanwadu a hyrwyddo ethos y cwmni a safonau rhagorol Theatr Clwyd.

**Cynhyrchu Llinell**

- Cymryd yr awenau ar amserlennu prosiectau a gyrru'r broses gyflwyno yn ei blaen, unwaith bydd y Cyfarwyddwr Cynhyrchu, y Cyfarwyddwr Gweithredol a'r Cyfarwyddwr Artistig wedi sefydlu'r cyd-destun a'r strwythur cynhyrchu.
- Bod yn gyfrifol am greu cyllidebau cynhyrchu ochr yn ochr â'r Cyfarwyddwr Cynhyrchu, y Cyfarwyddwr Gweithredol a'r Cyfarwyddwr Cyllid, Gweithrediadau a Phobl, a chysylltu â hwy ar bob agwedd ar gyfrifon cynhyrchiad.
- Mewn cydweithrediad â'r Cyfarwyddwr Cynhyrchu, arwain ar gontractio a thrafod, gan gynnwys gwaith ymweld, cytundebau cydgynhyrchu a chomisiynau.
- Mynychu a chymryd rhan weithredol mewn cyfarfodydd cynhyrchu a bod yn bwynt cyswllt cyntaf i Dimau Cynhyrchu ar gyfer unrhyw faterion sy'n codi yn ystod y cynhyrchiad neu'r perfformiadau, gan gynnal amgylchedd adeiladol, proffesiynol a diogel ar gyfer y timau.
- Yn achos prosiectau sy'n cael eu cydgynhyrchu gyda Theatr Clwyd ond a reolir gan theatr bartner, chwarae rôl gydlynu rhwng y ddau sefydliad, a chynnig cefnogaeth i'r theatr bartner yn ôl yr angen.
- Cefnogi'r adrannau eraill yn Theatr Clwyd gydag unrhyw weithgarwch datblygu, ymgysylltu a chyfathrebu o amgylch y cynyrchiadau.

- Rheoli cyfarfod adolygu ar ddiwedd pob cynhyrchiad lle gall aelodau'r tîm werthuso llwyddiannau a methiannau.
- Rheolwr llinell ar y Cynhyrchydd Cynorthwyol
- Rheolwr llinell ar unrhyw hyfforddeion neu brentisiaid preswyl yn ôl yr angen.
- Ymgysylltu'n weithredol ag arferion a chynyrchiadau theatr cyfredol, a chyfrannu'n rhagweithiol at drafodaethau rhaglennu yn Theatr Clwyd.

**Arall**
- Sicrhau gwybodaeth gyfredol am dueddiadau'r diwydiant drwy fynychu sioeau, cynadleddau a digwyddiadau hyfforddi a dilyn newyddion, cyfryngau cymdeithasol ac adolygiadau.
- Dilyn arferion gorau ar draws y diwydiant drwy ddatblygu a chynnal perthnasoedd gydag amrywiaeth o gynhyrchwyr eraill yn y sectorau â chymhorthdal a masnachol.

**Manyleb y Person**

**Hanfodol**
- Profiad arbenigol sylweddol o weithio ar lefel uwch mewn rôl gynhyrchu mewn theatr gynhyrchu.
- Profiad sylweddol o gasglu a rheoli timau cynhyrchu a chreadigol.
- Profiad o drafod a drafftio contractau.
- Profiad o archebu taith.
- Enw da am reolaeth llinell, neu reoli tîm, ynghyd â'r gallu i arwain a chymell pobl.
- Sgiliau rheolaeth ariannol cadarn, gyda phrofiad o weithio gyda chyllidebau cymhleth.
- Sgiliau cyfathrebu a thrafod rhagorol, gan flaenoriaethu cyfathrebu llafar, yn enwedig mewn sgyrsiau anodd.
- Sylw rhagorol i fanylder.
- Sgiliau trefnu rhagorol, gyda'r gallu i reoli sawl tasg ar yr un pryd a gweithio dan bwysau.
- Gwybodaeth dda am Microsoft Office.
- Gwybodaeth dda am gytundebau cwmni gyda chymhorthdal neu SOLT Theatr y DU ar gyfer actorion, rheolwyr llwyfan a gweithwyr llawrydd creadigol.
- Agwedd feddylgar at dueddiadau ehangach o fewn y diwydiant a dealltwriaeth glir ohonynt.
- Gwybodaeth dda am ffurfiau celf heblaw am y theatr, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, dawns, cerddoriaeth, celf, ffilm a llenyddiaeth.
- Sgiliau gweinyddol rhagorol, gyda dull trefnus a systematig o weithio.
- Y gallu i brosesu a chrynhoi gwybodaeth gymhleth yn gyflym.
- Dull egnïol o weithio, y gallu i yrru prosiectau yn eu blaen i'w cwblhau a bod yn hunangynhaliol yn weinyddol.
- Y gallu i ddatblygu, meithrin a chynnal perthnasoedd cadarn, cynhyrchiol a hirdymor gydag amrywiaeth o bersonél, partneriaethau a rhwydweithiau allweddol, lefel uchel.
- Y gallu i reoli sawl tasg ar yr un pryd a gweithio dan bwysau.
- Y gallu i weithio’n gydweithredol.
- Dealltwriaeth o ddatblygu cynulleidfaoedd a marchnata.
- Hygyrch a chefnogol i staff cynhyrchu, artistiaid, cyfranogwyr a chynulleidfaoedd.
- Dealltwriaeth o amrywiaeth a chynhwysiant ac ymrwymiad iddynt.
- Ymrwymiad i ragoriaeth artistig.

**Dymunol**

- Profiad o archebu a rheoli perfformiadau rhyngwladol.
- Rhwydweithiau da o fewn diwydiant theatr y DU.
- Dealltwriaeth o ddatblygiad artistiaid.
- Gwybodaeth am brotocolau Iechyd a Diogelwch a materion yswiriant a chyfreithiol, ac arfer gorau mewn polisïau cyfle cyfartal ac amrywiaeth.
- Trwydded yrru lawn.
- Cymraeg llafar ac ysgrifenedig.